# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

DYDDIAD: 1 Mawrth 2000
LLEOLIAD: Ystafell Bwyllgora X, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
TEITL: Cronfa Ffordd i Ffyniant

**Cyflwyniad**

1. Yng Ngorffennaf 1998, cyhoeddodd y Llywodraeth Agenda Economaidd newydd ar gyfer Cymru, "Ffordd i Ffyniant". Roedd hwn yn nodi'r materion allweddol ac yn sefydlu fframwaith i ddatblygu strategaethau ar gyfer datblygu economaidd, o fewn cyd-destun cyfrifoldebau macro-economaidd Llywodraeth y DU a dylanwadau marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

2. Gwnaed darpariaeth yn y gyllideb er mwyn bwrw ymlaen â phrosiectau penodol i gefnogi'r Agenda hwn o Flwyddyn Ariannol 2000-01 ymlaen. Yn ddiweddar, cafodd hyn ei ystyried law yn llaw â datblygu prosiectau a chynlluniau ar gyfer rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol, tra'n sicrhau ar yr un pryd nad yw'r ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn gymwys i dderbyn Arian Ewropeaidd o dan anfantais annheg.

**Diben**

3. Mae'r papur yn gwahodd y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y dafell arfaethedig gyntaf ar gyfer y prosiectau. Yn dilyn rownd y Gyllideb, mae £6.397 miliwn ar gael yn 2000-01 a £10.248 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol er mwyn cynorthwyo i ariannu'r rhaglenni economaidd newydd.

4. Cafodd amryw o brosiectau eu pwyso a'u mesur ac argymhellir eu bod yn derbyn cymorth fel bod modd bwrw ymlaen â hwy cyn gynted ag y bo modd. Ceir disgrifiad ohonynt yn Atodiad A, yn ogystal â rhestr o'r prosiectau sydd ar hyn o bryd yn brosiectau posibl ar gyfer yr ail dafell. Mae angen rhagor o waith ar y rhain (a bydd angen i'r gweithgor ar Gymorthdaliadau Gweithredu eu hystyried). O safbwynt yr arian arfaethedig sydd i'w ddyrannu, dylid nodi bod blaenoriaeth benodol wedi'i rhoi i Finance Wales (y Gronfa Ddatblygu) gyda'r argymhelliad bod £1.85 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a fydd yn codi i £3.5 miliwn ym Mlwyddyn Ariannol 2002/03. Bydd y dafell gyntaf sy'n cynnwys 14 prosiect yn derbyn £5.39 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gyda'r posibilrwydd y bydd rhagor o brosiectau yn cael eu hychwanegu.

5. Y bwriad wrth weithredu'r cynigion hyn yw gweithio o fewn fframwaith y cynlluniau gweithredu rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol,y cytunwyd arnynt ar gyfer Amcan 1 a rhaglenni eraill y Cronfeydd Strwythurol. Pan fo hynny'n briodol, byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar arian Ewropeaidd er budd y prosiectau.

6. Mae’r prosiectau eu hunain yn gymysgedd o’r newydd sbon; parhau â’r cynlluniau presennol; a datblygu gweithgareddau/raglenni blaenorol ymhellach. Lle bo hynny’n briodol, mae cynlluniau cynnal busnes presennol yn cael eu gwerthuso er mwyn cynorthwyo’r broses o benderfynu ar wariant y dyfodol. Bydd pob bid am arian o’r Gronfa yn cael eu gwerthuso yn llawn yn ystod cyfnod yr ariannu. Os bydd cytundeb, bydd raid trosglwyddo arian o fewn y gyllideb, yn amodol ar gytundeb yr Ysgrifennydd Cyllid e.e. bydd y 4 Cynghorydd Masnach Ryngwladol o dan bid y Gwasanaethau Masnach Ryngwladol yn cael eu gweinyddu drwy gyllideb weinyddu ganolog y Cynulliad.

7. Bwriedir hefyd darparu copïau o’r papur hwn ar gyfer y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a’r Amgylchedd a’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fel bod modd iddynt gynnig eu sylwadau.

Adran Polisi Economaidd
Chwefror 2000